

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru - Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gymorth ar gyfer astudiaeth ddoethurol



### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

1. Sefydlwyd Y Brifysgol Agored ym 1969 a chofrestrodd y myfyrwyr cyntaf ym 1971. Mae'n gweithredu ym mhob un o bedair gwlad y DU, ac mae'n arwain y byd o ran cynnig cyfleoedd dysgu o bell hyblyg ac arloesol ar lefel addysg uwch (AU). Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.
2. Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr Y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cymru a ni yw darparwr addysg uwch israddedig ran-amser mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae bron tri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth wrth astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad prifysgol safonol.
3. Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim [OpenLearn](#) (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg [OpenLearn Cymru](#)) a chynnwys sylweddol ar YouTube ac ar iTunesU lle mae ein heitemau wedi cael eu lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.
4. Mae gwaith ymchwil a datblygu arloesol ac arweiniol Y Brifysgol Agored ymhlith y traean uchaf o brifysgolion y DU. Mae gennym dros 900 o fyfyrwyr ôl-raddedig cofrestredig ac rydym yn gweithio gyda 23 o Ganolfannau Ymchwil Cysylltiedig ledled y byd.

### Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

5. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i roi cymorth ar gyfer astudiaeth ddoethurol. Rydym yn croesawu'r cynigion a amlinellwyd yn y papur ymgynghori ac yn enwedig y ffaith y caiff cymorth ei roi i'r rhai sy'n dewis astudio'n rhan-amser, gan gynnwys dysgu o bell. Mae hyn yn agwedd hanfodol ar sicrhau bod y cyfle hwn ar gael i gynifer o bobl â phosibl.

### Cyfyngiad oedran

6. Er ein bod yn deall bod y cyfyngiad oedran arfaethedig (59 oed ac iau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf) yn adlewyrchu'r system sy'n cael ei gweithredu yn Lloegr ar hyn o bryd, rydym yn credu na ddylai cyfyngiad oedran fod ar waith. Cenhadaeth Y Brifysgol Agored yw hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb. Byddai gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig ar sail oedran yn groes i genhadaeth Y Brifysgol Agored ac nid yw'n rhywbeth y byddem yn ei gefnogi.
7. Mae'r cyswllt rhwng oedran a'r tebygolrwydd o ad-dalu yn dybiedig ac mae'n bosibl nad yw'n wir. Mae myfyrwyr hyn yn debygol o fod mewn cyflogaeth eisoes ac, felly,

dros y trothwy incwm i sbarduno ad-daliad. Y risg wirioneddol yw ychwanegu at faich dyled sydd bob amser yn cynyddu i bobl iau y mae'n debygol iawn eu bod eisoes wedi derbyn benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu a chostau cynnal israddedigion.

8. Gall mabwysiadu'r cyfyngiad cymhwysedd oedran hefyd fod yn wrthgynhyrchiol. Wrth i oedran ymddeol pobl gynyddu, mae'r gweithlu yn cynnwys mwy a mwy o bobl hŷn y mae'n ddigon posibl y gallant ddefnyddio'n gynhyrchiol y wybodaeth a'r sgiliau a gaiff eu dysgu drwy gynnal ymchwil ddoethurol. Mae hyn yn duedd gynyddol. Mae'n debygol bod y rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth yn ennill mwy na rhywun iau sydd wedi graddio ac, felly, mae'n fwy tebygol y byddant yn cyrraedd y trothwyon ad-dalu; gallent ddilyn gradd ymchwil ran-amser a thalu'r benthyciad yn ôl ar yr un pryd.
9. Mae myfyrwyr hŷn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddiwylliant ymchwil unrhyw brifysgol, yn enwedig o ran profiadau blaenorol mewn bywyd a gyrfa.
10. Am bob un o'r rhesymau a amlinellwyd uchod, ni ddylid lliniaru'r risg drwy wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp ar y sail y gall ei nodwedd warchoddedig effeithio ar ei allu i ad-dalu'r benthyciad.

### ***Trothwy ad-dalu***

11. Rydym yn cefnogi'r bwriad i'r trothwy ad-dalu fod yn gyson â benthyciadau cyrsiau israddedig a Meistr. Nodwn fod y trothwy hwn ar fin newid i £25,000 ym mis Ebrill 2018 ac rydym yn tybio mai hwn fydd y trothwy ar gyfer ad-dalu benthyciadau doethurol nes i ragor o newidiadau gael eu gwneud.

### ***Cyfyngu ar fynediad***

12. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn credu na ddylid cael cyfyngiad pwnc ar gyfer cymhwysedd ar gyfer benthyciad doethurol. Mae ymchwil yn gwaddoli pobl ag ystod o sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy ac yn ychwanegu gwerth, beth bynnag yw'r arbenigedd disgyblaethol. Gall disgyblaethau gwahanol roi sgiliau ychwanegol at y rhai sy'n benodol i'r maes pwnc. Mae'r rhain hefyd yn aml yn drosglwyddadwy. Gellir dadlau bod budd mawr i unrhyw sefydliad wrth fynd i'r afael â'r problemau o amrywiaeth o safbwyntiau y gall gweithlu rhyngdisgyblaethol eu cynnig. Mae cyfyngu ar fynediad yn peryglu cyfyngu ar gyfleoedd i'r rhai sydd efallai eisoes yn cael mwy o drafferth dod o hyd i gyllid ar gyfer astudiaeth ddoethurol. Dylai'r cynllun hwn ehangu mynediad at astudiaeth ddoethurol yn yr ystyr ehangaf posibl.
13. Rydym hefyd yn credu, yn unol ag argymhellion ehangach Adolygiad Diamond, na ddylid cael cyfyngiad cymhwysedd i'r rhai sydd eisoes â chymhwyster ar yr un lefel.

### ***Amserlen***

14. Rydym yn croesawu'r bwriad i gyflwyno'r cynllun hwn ar gyfer y flwyddyn academaidd 18/19, ond mae gennym rywfaint o bryder am yr amserlen i'w roi ar waith. Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn academaidd 18/19, bydd angen rhoi cadarnhad a manylion terfynol y cynllun newydd yn gyflym iawn er mwyn galluogi Cyllid Myfyrwyr Cymru a sefydliadau unigol i ddarparu a hyrwyddo'r cynllun newydd.

23/02/18

Cyswllt: Michelle Matheron Ffôn: 029 2026 2708 E-bost: [Michelle.Matheron@open.ac.uk](mailto:Michelle.Matheron@open.ac.uk)